Cynulliad Cenedlaethol Cymru
**Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**

National Assembly for Wales
**Legislation, Justice and Constitution Committee**

Jeremy Miles AC, y Cwnsler Cyffredinol
Rebecca Evans AC, y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd

17 Mawrth 2020

Annwyl gyfeillion

**Torri'r rheol 21 diwrnod**

Yn ein cyfarfod ar 9 Mawrth 2020 trafodwyd Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2020; Rheoliadau Addysg (Cyllid Myfyrwyr) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Rhif 2) 2020; Rheoliadau Addysg (Cyllid Myfyrwyr) (Symiau) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2020; a Rheoliadau Addysg (Cyllid Myfyrwyr) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Rhif 2) (Dirymu) 2020. Yn ein cyfarfod ar 16 Mawrth 2020, trafodwyd Rheoliadau Diogelu Iechyd (Hysbysu) (Cymru) (Diwygio) 2020. Gosodwyd yr holl offerynnau hyn **yn groes i'r rheol 21 diwrnod.**

Mae'n ymddangos bod torri'r rheol 21 diwrnod yn digwydd yn amlach o hyd, a bu 12 achos o'r fath ers diwedd mis Hydref 2019. Rydym yn cydnabod bod rhesymau dilys, o bosibl, dros dorri'r rheol a nodwn, er enghraifft, bod dau wedi digwydd wrth i reoliadau gael eu gwneud mewn perthynas â'r pandemig coronafeirws (COVID-19). Fodd bynnag, nid ydym am weld yr arfer o dorri'r rheol 21 diwrnod yn cael ei normaleiddio mewn unrhyw ffordd.

Byddwn yn parhau i fonitro pa mor aml, ac o dan ba amgylchiadau, y caiff y rheol 21 diwrnod ei thorri yn y dyfodol a byddaf yn ysgrifennu atoch eto os bydd angen.

Yn gywir

**Mick Antoniw AC**
Y Cadeirydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu yn Saesneg
We welcome correspondence in Welsh or English

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddDCC@cynulliad.cymru
0300 200 6565

**National Assembly for Wales**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddLJC@assembly.wales
0300 200 6565